Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Setliad y Grant Trafnidiaeth 2009-10**

**Dyddiad:** **12 Mawrth 2009**

**Gan:** **Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

---

Byddaf yn cyhoeddi fy mhenderfyniad ar ddyrannu cyllid y Grant Trafnidiaeth i'r awdurdodau lleol ar gyfer 2009-10 am 11.00 o'r gloch heddiw.

Eleni, mae'n dda gennyf gael cyhoeddi bod cyllid gwerth cyfanswm o £97.609 miliwn ar gael ar gyfer y Grant Trafnidiaeth. Mae'r swm hwn yn unol â'r cyllidebau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno arnynt. Mae'r Grant Trafnidiaeth yn fodd i fuddsoddi arian cyfalaf gyda'r awdurdodau lleol er mwyn gwella seilwaith trafnidiaeth Cymru ac er mwyn hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy. Gofynnir i'r Aelodau nodi nad yw cyhoeddiad eleni yn cynnwys dyraniadau ar gyfer rheilffyrdd ac nad oes unrhyw elfen o or-raglennu.

Ar 2 Rhagfyr 2008, roedd yn bleser cael cyhoeddi'r Flaenraglen Rheilffyrdd, sy'n gwneud defnydd mwy helaeth o'r pwerau sydd ar gael i ni o dan Ddeddf Rheilffyrdd  2005. Bellach, bydd prosiectau rheilffyrdd yn cael eu cyflawni yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn *Cymru'n Un*. Gallaf gadarnhau y bydd darpariaeth yn y Flaenraglen Rheilffyrdd er mwyn parhau â'r cynlluniau hynny a oedd gynt yn cael eu rhoi ar waith drwy'r Grant Trafnidiaeth. Felly, mae cyhoeddiad eleni ynghylch y Grant Trafnidiaeth yn ategu'r Flaenraglen Rheilffyrdd ac yn fuddsoddiad ychwanegol mewn ffyrdd lleol ac mewn ymyriadau i sicrhau trafnidiaeth integredig.

Yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd elfen o or-raglennu yn y dyraniadau a oedd ar gael i'r awdurdodau lleol, ond eleni, rydym wedi dysgu drwy brofiad nad oes angen elfen o'r fath bellach, gan fod yr awdurdodau lleol yn gwneud yn well o ran cyflawni cynlluniau trafnidiaeth. Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau hyd yn oed yn fwy o welliannau o ran cyflawni ac o ran sicrhau gwerth am arian, ac er mwyn sicrhau hefyd fod cynlluniau'n cadw at y gyllideb a bennwyd ar eu cyfer.

**Ffyrdd**

Yn y dyfodol, bydd Rhaglen y Grant Trafnidiaeth yn parhau i roi cymorth ar gyfer nifer o gynlluniau ffyrdd lleol, gan gynnwys Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys, Ffordd Ddosbarthu Castell-nedd Port Talbot a chynllun Ffordd Gyswllt Ceredigion. Mae'n bwysig bod y prosiectau hyn yn symud yn eu blaenau er mwyn sicrhau'r manteision strategol sy'n deillio o well seilwaith. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a rheoli ac amserlennu'r ymrwymiad hwn er mwyn sicrhau bod modd cyflawni prosiectau heb roi gormod o bwysau ar gyllidebau yn y dyfodol. Yr wyf, felly, wedi trefnu bod £63 miliwn ar gael i'r awdurdodau lleol er mwyn iddynt fedru bwrw ymlaen â gwelliannau i rwydweithiau ffyrdd lleol, a byddaf yn cydweithio â'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol i adolygu ac i ddiwygio'r amserlenni ar gyfer y gwaith hwn. Ochr yn ochr â'r Grant Trafnidiaeth, byddaf hefyd yn parhau i ddarparu cyllid (£0.885 miliwn) ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sy'n cael y Grant Prif Ffyrdd ar hyn o bryd.

**Trafnidiaeth Integredig**

Mae gan yr awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae o ran cyrraedd y nod a amlinellir yn Cymru'n Un o greu system drafnidiaeth integredig, sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sy'n uno'n cenedl ac sy'n sicrhau bod modd cyflawni'r hyn yr ydym yn anelu ato o ran lleihau allyriadau carbon. Mae nifer o Becynnau Trafnidiaeth Integredig yn rhan o Raglen y Grant Trafnidiaeth, a bydd y pecynnau hyn yn dirwyn i ben yn 2009-10. Bydd hyn yn golygu y bydd modd cyflwyno dulliau gwahanol o gefnogi ymyriadau trafnidiaeth, gan gynnwys gweithredu rhaglenni trafnidiaeth rhanbarthol, estyn y cynllun Cardiau Call ar gyfer Teithio Rhatach dros Gymru Gyfan ac estyn y fenter Trefi Teithio Cynaliadwy. Yn ychwanegol at y Flaenraglen Rheilffyrdd, yr wyf wedi trefnu bod swm pellach o £21 miliwn ar gael ar gyfer y pecynnau trafnidiaeth integredig, y Cardiau Call a'r fenter Trefi Teithio Cynaliadwy.

**Cerdded a Beicio a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau**

Yr wyf yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer y prosiectau cerdded a beicio sydd yn y Rhaglen eisoes, ac yr wyf hefyd yn bwrw ymlaen â'r fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Yr wyf wedi trefnu bod £10 miliwn ar gael. At hynny, yr wyf hefyd wedi trefnu bod £2 miliwn arall ar gael i Sir Ddinbych o'r dyraniadau ar gyfer Pecynnau Integredig, a hynny er mwyn iddi fedru parhau â Phecyn Arfordirol Afon Clwyd, a fydd yn hwyluso'r gwaith o barhau â chynlluniau i greu llwybrau beicio. Yr wyf yn darparu £1.6 miliwn yn ychwanegol i Gyngor Caerdydd drwy'r fenter Trefi Teithio Cynaliadwy er mwyn datblygu Pont-y-Werin, sef pont ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Mae'r cyllid sydd wedi'i ymrwymo yn adlewyrchu'r pwysigrwydd yr wyf yn ei roi ar ddatblygu dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac mae'n unol â'r gweithgareddau allweddol a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio, a gafodd ei gyhoeddi yn ddiweddar.

Mae fy ymrwymiad i system Drafnidiaeth Integredig i Gymru yn gwbl glir ac yr wyf eisoes yn ystyried sut y gallwn ddenu a buddsoddi rhagor o arian yn y meysydd hyn drwy fynd ati, er enghraifft, i geisio cael rhagor o Arian Ewropeaidd ar gyfer ein prosiectau trafnidiaeth aml-foddol. Wrth i'r rhaglen fynd

rhagddi ac wrth i ni sicrhau rhagor o arian, byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach gan ddisgrifio'r elfennau ychwanegol a gaiff eu cyflwyno i'r rhaglenni hyn.

Fel rhan o setliad eleni, yr wyf wedi creu cronfa sy'n werth dros £1.5 miliwn. Yr wyf yn bwriadu defnyddio'r gronfa hon i ddatblygu cynlluniau allweddol ar gyfer y dyfodol, a byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach yn ystod y flwyddyn.

Bydd y setliad yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw yn galluogi'r awdurdodau lleol i fwrw ymlaen ag ystod eang o brosiectau ac i'w cwblhau. Bydd hefyd yn ein helpu i fwrw ymlaen â'r ymrwymiadau'n ymwneud â thrafnidiaeth gynaliadwy a amlinellir yn *Cymru'n Un*.